

Nodiadau ar lenwi'r ffurflen Ymgeisydd yn Cyrraedd yn Hwyr Iawn

1. Gallai **ymgeisydd sy'n cyrraedd ar ôl dechrau'r arholiad** gael caniatâd i fynd i mewn i'r ystafell arholiadau a sefyll yr arholiad. **Y ganolfan sydd i benderfynu ar hyn.**
Rhaid i'r ganolfan rybuddio'r ymgeisydd bod posibilrwydd na fydd y corff dyfarnu'n derbyn ei sgript.
2. **Rhaid** caniatáu'r amser llawn ar gyfer yr arholiad i ymgeisydd sy'n cyrraedd yn hwyr ac sy'n cael sefyll gan y ganolfan..
3. **Nid oes gofyniad i lenwi'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n cyrraedd o fewn un awr ar ôl amser dechrau cyhoeddedig y corff dyfarnu ar gyfer arholiad o fwy nag un awr.**
4. **Bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd dros un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer arholiad o fwy nag un awr.**
5. **Ar gyfer arholiadau llai nag un awr, bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd ar ôl amser gorffen swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.**
6. Mewn amgylchiadau o'r fath, **rhaid** i chi gyflwyno'r ffurflen hon ar lein i'r corff dyfarnu priodol **o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad y papur dan sylw.**
7. **Rhaid** i chi gwblhau'r meysydd canlynol - **Manylion y ganolfan, manylion yr ymgeisydd, Corff Dyfarnu, Cymhwyster, Cyfres Arholiadau, Pwnc neu god cydran/uned.**
8. **Rhaid** i chi lenwi'r blwch sydd â'r pennawd 'Amser y daeth yr ymgeisydd o dan oruchwyliaeth staff y ganolfan'.
9. Yn y blwch '**Y rheswm dros fod yn hwyr**', nodwch union natur yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymgeisydd yn cyrraedd yn hwyr. Dylech roi manylion unrhyw drefniadau arbennig a wnaethpwyd i'r ymgeisydd gyrraedd y ganolfan.
10. Yn y blychau priodol, nodwch yr union amser y gwnaeth eich canolfan ddechrau a gorffen yr arholiad, a'r amser y bu i'r ymgeisydd dan sylw ddechrau a gorffen ei arholiad.
11. **Rhaid** i chi lenwi'r blwch 'Pa mor sicr allwch chi ddweud nad yw'r ymgeisydd wedi gweld cynnwys y papur cyn sefyll yr arholiad?'
12. **Rhaid** anfon y sgriptiau at y corff dyfarnu/arholwr yn y dull arferol.